



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Brynrefail
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AD**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Brynrefail

Ysgol gyfun naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Brynrefail. Lleolir yr ysgol ym mhentref Llanrug, ar y ffordd rhwng Caernarfon a Llanberis, ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Daw llawer o'r disgyblion o bentrefi Llanrug, Bethel, Llanberis a'r ardal wledig o gwmpas.

Mae 745 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 115 yn y chweched dosbarth. Mae hyn ychydig yn llai nag ar adeg yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2012 lle roedd 778 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae 9.4% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ganran genedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%. Mae 21.7% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sydd yn debyg i'r ganran genedlaethol o 22.6%. Mae gan 1.4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn is na'r ffigwr cenedlaethol o 2.2%.

Mae 86% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae 98% yn rhugl yn y Gymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol. Cafodd y pennaeth ei phenodi yn Ebrill 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Brynrefail yn gymuned hynod ofalgar, gynhwysol a Chymreig. Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth ysbrydoledig. Gyda'r uwch dîm rheoli, mae wedi rhannu'r weledigaeth o anelu at ragoriaeth, 'gyda'n gilydd am y copa', yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion. Mae ethos cryf o waith tîm yn yr ysgol lle mae pob aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb llawn am wella'u hymarferion addysgu a gofalu. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael y profiadau bywyd ysgol gorau posibl.

Mae disgyblion Ysgol Brynrefail yn aelodau balch o gymuned yr ysgol sydd yn ymhyfrydu yn eu Cymreictod. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn ardderchog a dangosant agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn chwarae rôl lawn ym mywyd yr ysgol ac yn ymgymryd yn flaengar â rolau arwain.

Nodwedd gadarnhaol yw'r berthynas waith adeiladol rhwng staff â disgyblion. Mae athrawon yn ofalgar iawn ac maent yn paratoi gwersi diddorol sydd yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a profiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Rhagorol

Argymhellion

A1 Gwella uwch fedrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth disgyblion

A2 Gwella addysgu mewn ychydig o achosion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Maent yn adalw gwybodaeth ac yn ei chymhwyso'n effeithiol i sefyllfaoedd newydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o effaith ongl edrych, cysgodi a thonyddu gwrthrychau tri dimensiwn yn eu gwersi celf.

Mae medrau llafar disgyblion yn gryfder. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n ofalus a pharchus ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Maent yn siaradwyr huawdl a hyderus yn y Gymraeg gan ddefnyddio idiomau a hiwmor wrth gyfathrebu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn estynedig ar lafar gan ddefnyddio terminoleg pwnc yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn esbonio'n glir sut i ddod o hyd i gyfesurynnau y trobwynt trwy gwblhau'r sgwâr yn y gwersi mathemateg. Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan weithredol mewn gwaith grŵp, gan gyfrannu'n llwyddiannus. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymysgu'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gyfathrebu ar lafar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus er mwyn lleoli ffeithiau. Mae llawer yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei ddarllen, boed hyn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Maent yn gallu crynhoi gwybodaeth gan gywain y prif ffeithiau yn llwyddiannus. Maent yn dehongli a dadansoddi testunau llenyddol yn effeithiol, er enghraifft wrth astudio araith Charlie Chaplin 'The Great Dictator' yn y gwersi Saesneg. Mae ychydig o ddisgyblion yn dadansoddi testunau yn sensitif a chraff, er enghraifft wrth drafod y gerdd 'Hen Daid' yn eu gwersi Cymraeg. O gael y cyfle, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gallu ystyried dibynadwyedd ffynonellau yn effeithiol, er enghraifft wrth ddefnyddio ffynonellau am Owain Glyndwr yn eu gwersi dyniaethau.

Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu yn effeithiol ac yn estynedig. Meddant ar eirfa gyfoethog a chystrawen naturiol Gymreig. Maent yn arddangos dealltwriaeth dda o gynulleidfa a phwrpas eu hysgrifennu. Mae enghreifftiau'n cynnwys ysgrifennu traethawd am fywydau'r chwarelwyr mewn hanes a llunio araith am hiliaeth mewn addysg grefyddol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n huawdl a choeth gan ddefnyddio arddull gynnil a soffistigedig, er enghraifft wrth ysgrifennu stori fer 'Cyfrinach' yn y gwersi Cymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud gwallau sillafu a gramadeg sylfaenol ac, ar brydiau, mae eu mynegiant llafar ac ysgrifenedig yn fwy chwithig yn Saesneg.

Mae gan lawer o ddisgyblion afael gadarn ar gysyniadau elfennol rhif. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o werth lle ac yn defnyddio ffracsiynau a chanrannau yn hyderus. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o ganrannau a rhifau wedi eu mynegi yn y ffurf safonol i gyfrifo trwch cramen y ddaear. Mae llawer yn dangos dealltwriaeth addas o fesurau ac mae'r mwyafrif yn dadansoddi data yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn eu gwersi dyniaethau, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cyfrifo cyfartaleddau a llunio graffiau addas er mwyn dadansoddi'r data maent wedi ei gasglu am deithiau'r dosbarth i'r ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau rhifiadol elfennol ac mae lleiafrif yn labelu graffiau yn anghyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) yn briodol i ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys defnyddio hypergysylltiadau ac animeiddiadau mewn pwyntiau pŵer. Maent hefyd yn datblygu eu huwch fedrau TGCh yn addas. Er enghraifft, mae llawer yn deall ystyr a phwrpas algorithmau a sut i'w defnyddio i godio rhaglen i wneud i gymeriad rhithwir symud.

Ceir enghreifftiau cyson o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn arddangos eu doniau creadigol gwreiddiol wrth ysgrifennu dyddiadur Gwenallt yn seiliedig ar y gerdd 'Coed'. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion yr ysgol fedrau corfforol o safon uchel. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn medru arfarnu eu perfformiad presennol ac yn gwybod yr hyn y maent angen ei wella er mwyn mireinio eu medrau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ragfynegi a chanfod y cysylltiad rhwng arwynebedd petryal a pharalelogram mewn mathemateg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn debyg i'r hyn a ddisgwylir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cwblhau'r cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau yn llwyddiannus ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgolion am ddim ychydig yn is na'r un garfan o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth, mae cyfran y disgyblion sydd yn cwblhau eu cyrsiau yn nodwedd gadarnhaol ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn is na'r hyn a ddisgwylir gan ystyried eu perfformiad blaenorol.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Yn Ysgol Brynrefail, mae agweddau at ddysgu a lles y disgyblion yn eithriadol. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol a theyrngaer iawn tuag at fywyd ysgol. Nodwedd gref yw balchder y disgyblion yn eu hetifeddiaeth a'u cymuned leol. Mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn ymhyfrydu yn y ffaith eu bod yn medru siarad Cymraeg.

Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt ac yn teimlo'n hyderus bod yr ysgol yn ymateb i'w pryderon yn amserol ac yn synhwyrol.

Mae llawer o ddisgyblion yn weithgar ac yn hyderus iawn wrth ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Maent yn cyfrannu'n ardderchog at fywyd a gwaith yr ysgol trwy fod yn aelodau o'r cyngor ysgol, fforwm blynyddoedd, llysgenhadon chwaraeon, a'r clwb eco. Maent yn cwrdd ac yn casglu barnau disgyblion eraill yn rheolaidd trwy fforymau a holiaduron. Oherwydd barnau disgyblion, ehangwyd ar y dewisiadau iach sydd ar gael yn y ffreutur, ffynhonnau dŵr ac at leihau'r defnydd o blastig. Mae llysgenhadon pynciol yn rhan allweddol o gynorthwyo adrannau i wneud gwelliannau i agweddau cwricwlaidd. Er enghraifft, ar gais disgyblion, mae'r adran dechnoleg

wedi cyflwyno mwy o weithgareddau sydd yn cwmpasu elfennau gwyddoniaeth, mathemateg a thechnoleg heriol. Mae llysgenhadon Blwyddyn 7 yr adran Saesneg yn dylanwadu ar y nofelau y maent yn eu hastudio yn eu gwersi. Nodwedd eithriadol yw cyfraniad arbennig y chweched dosbarth ar draws yr ysgol. Maent yn cynnig cymorth penigamp i ddisgyblion iau yn y clybiau gwaith cartref a sesiynau darllen. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau arwain yn llwyddiannus wrth arwain a threfnu Eisteddfod yr ysgol a'r diwrnodau sgiliau. Mae'r holl weithgareddau hyn yn cyfrannu at ddatblygu disgyblion sydd yn unigolion moesol, gwybodus a gofalgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddinasyddion egwyddorol a hael. Maent yn casglu arian sylweddol tuag at elusennau lleol a chenedlaethol, fel elusen 'Curiad Calon', ac yn trefnu a chynnal parti ar gyfer disgyblion Ysgol Arbennig Pendalar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n unigolion iach a hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy ddeiet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Maent yn manteisio ar ystod eang o gyfleoedd i gadw'n heini, trwy arlwy eang o glybiau, gan gynnwys clybiau traws gwlad, pêl-droed, hoci, a gweithgareddau chwaraeon am oes. Mae cyfraddau uchel o ddisgyblion yn mynychu ystod arbennig o weithgareddau allgyrsiol buddiol, er enghraifft band yr ysgol, clwb caredigrwydd, clwb gwyddoniaeth a'r côr.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn ardderchog mewn gwersi ac ar y coridorau. Maent yn brydlon ac yn barod i ddysgu. Mae llawer ohonynt yn uchelgeisiol ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu gan ymgysylltu'n dda â'r gwaith a dangos gwir ddiddordeb a mwynhad ynddo. Maent yn gweithio'n ddiwyd ac yn cynnal eu canolbwyntio gan ddyfalbarhau â'u tasgau'n llwyddiannus iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol effeithiol ac yn datrys problemau eu hunain gan ddangos dycnwch wrth wynebu tasgau heriol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin ei gilydd gyda pharch amlwg ac yn rhyngweithio'n hyfedr gyda'i gilydd. Maent yn gymwynasgar, serchog a chynnes wrth gefnogi a chynnal eu cyfoedion. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol cryf iawn ac maent yn trafod materion a mynegi eu safbwyntiau yn hynod o aeddfed gydag oedolion. Mewn trafodaethau dosbarth, mae bron pob un yn cydweithio'n dda, gan gyfrannu'n werthfawr a gwerthfawrogi safbwyntiau eraill.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn llwyddo i greu perthynas weithiol adeiladol gyda'r disgyblion. Maent yn llwyddo i greu awyrgylch cefnogol ac anogol yn y gwersi.

Mewn llawer o wersi, ceir addysgu effeithiol sydd yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon drefniadau cyson sy'n helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym ar ddechrau'r wers. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn gyfathrebwyr da sydd yn esbonio cysyniadau pynciol a gofynion tasgau yn glir. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Maent yn cynllunio'n ofalus er mwyn ennyn diddordeb disgyblion ac yn rhannu meini prawf llwyddiant defnyddiol gyda nhw. Mae'r athrawon hyn yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd pwrpasol rhwng gweithgareddau dan arweiniad yr athro a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bychan. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus gan gynnig adborth llafar amserol a gwerthfawr.

Mewn ychydig o wersi, ceir addysgu ysbrydoledig. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon frwdfrydedd angerddol am eu pwnc sydd yn tanio'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn esbonio cysyniadau pynciol cymhleth yn glir iawn ac maent yn defnyddio adnoddau dengar a chreadigol. Maent yn defnyddio eu harbenigedd pynciol yn fedrus i gynllunio cyfres o weithgareddau sydd yn adeiladu dealltwriaeth disgyblion ac yn sicrhau bod tempo byrlymus i'r dysgu. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Mewn tua hanner y gwersi, ceir cwestiynu treiddgar sydd yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyfrannu. Yn ogystal, nid ydynt yn annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion na chyfiawnhau eu rhesymeg.

Mewn ychydig o achosion, nid yw'r addysgu'n ddigon effeithiol. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn sicrhau bod yna her a chefnogaeth addas i sicrhau bod bob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn amlinellu llwyddiannau disgyblion ac yn rhoi arweiniad buddiol iddynt ar sut i wella eu gwaith. Maent yn darparu sesiynau 'cnoi cil' gwerthfawr i ddisgyblion ymateb yn bwrpasol i'w sylwadau ac yna'n gwirio'r gwelliannau. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nid yw'r targedau y mae athrawon yn eu nodi ar waith disgyblion yn ddigon penodol a chlir.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr sydd yn llwyddo i ddiwallu gofynion yr holl ddisgyblion. Fel rhan o'i rôl fel ysgol gwella ansawdd Cwricwlwm i Gymru, mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd partner i ddatblygu profiadau a chontinwrm dysgu trwy arsylwi a chynllunio gwersi ar y cyd. Mae'r ysgol yn darparu unedau pontio creadigol, er enghraifft prosiect gwreiddiol 'Brwydr y Bygis' i ddatblygu eu medrau dylunio a thechnoleg gwybodaeth. Yn ogystal, mae'r ysgol yn addasu agweddau o ddarpariaeth Blwyddyn 7.

Cryfder nodedig yw'r modd mae arweinwyr yn cyd-gynllunio arlwy gynhwysfawr o gyrsiau opsiwn cyfnodau allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 trwy ryngweithio trefnus gydag ysgolion uwchradd eraill a sefydliadau addysg bellach cyfagos. Maent yn ystyried dyheadau a diddordebau'r disgyblion, gofynion cyflogwyr lleol a chapasiti'r darparwyr i gynnig cyrsiau hyfyw. Mae opsiynau cyfnod allweddol 4 yn cynnig ystod eang o bynciau, gan gynnwys cyfuniad buddiol o gyrsiau addysg gyffredinol a galwedigaethol sy'n caniatáu i bron pob un o'r disgyblion ddilyn llwybr sy'n arwain at addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae darpariaeth arbennig yr 'Hwb' yn teilwra cwricwlwm pwrpasol ac amserol i ddisgyblion mwyaf bregus gyda'r nod o gael iddynt ddychwelyd i'r prif lif pan fydd yn addas. Mae ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft trwy'r cynllun 'Seren' a dosbarthiadau meistr gyda phrifysgolion amlwg.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys clybiau chwaraeon, cystadlaethau amrywiol a diwrnodau sgiliau ar ffurf themâu. Yn ogystal, mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau addysgol i gyrchfannau lleol a rhyngwladol, er enghraifft taith gyfnewid gydag ysgol yn Rwmania er mwyn cyfnewid syniadau am ddatblygiadau technolegol.

Mae awyrgylch Cymraeg a Chymreig godidog yn Ysgol Brynrefail. Nodwedd arbennig o'i gwaith yw'r ddarpariaeth ysgogol ac atyniadol i gyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o Gymru a Chymreictod. Er enghraifft, mae'n darparu diwrnodau medrau cynhwysfawr a deniadol sy'n datblygu disgyblion sy'n wybodus am eu treftadaeth leol a Chymreig.

Mae disgyblion yn cael ystod eang o gyfleoedd buddiol a chreadigol i gymhwyso eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, wrth bontio o'r ysgolion cynradd, mae disgyblion yn defnyddio chwedl leol Rhita Gawr fel ysbrydoliaeth i gyfansoddi a pherfformio cân gyda grŵp lleol 'Plu'. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae'r cyfleoedd hyn wedi eu cynllunio'n gelfydd er mwyn datblygu ac ymestyn medrau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd Saesneg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhif yn y pynciau perthnasol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol yn defnyddio data profion diagnostig i drefnu rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau pwrpasol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau gwan.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae Ysgol Brynrefail yn gymuned gynhwysol, ofalgar a Chymreig. Hyrwyddir ymdeimlad cryf o deulu sy'n anelu am yr un nod, sef camu 'gyda'n gilydd am y copa'. Yn greiddiol i'w gwaith mae ei darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae hyn wedi cyfrannu at greu cymuned lle mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda gan ddangos parch a gofal at eu cyfoedion ac eraill.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr a chyson i olrhain cynnydd academiaidd, presenoldeb a lles disgyblion. Mae rhain yn caniatáu i'r ysgol ymateb yn chwim i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac ymyrryd yn syth er mwyn mynd i'r afael â'u gofynion unigol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn llunio cyfres o ymyraethau effeithiol i gefnogi a chynnal disgyblion yn dilyn dadansoddiadau mewnol o'u cynnydd. Mae rhain yn cynnwys cynlluniau gwella cyflym, mentora effeithiol, a sesiynau adferol adrannol i dargedu agweddau penodol sydd angen sylw. Ar sail dadansoddi miniog, mae gan athrawon afael gadarn iawn ar gynnydd ac agweddau eu disgyblion.

Ceir darpariaeth hynod gynhwysol a gwerthfawr yn yr Hwb a'r Hafan lle gwneir gwaith gyda grwpiau bychain o ddisgyblion er mwyn datblygu medrau cymdeithasol a hybu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Drwy'r ddarpariaeth hynod ofalgar a chynhaliol hon, llwyddir i integreiddio'r rhan fwyaf o'r disgyblion i ddsbarthiadau prif ffrwd. Nodwedd eithriadol yw'r ffaith fod y disgyblion hyn yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau cymwysterau priodol.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i ddarparu ymyrraeth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion sydd yn anghenus neu'n tanberfformio. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag amryfal asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth o'r ansawdd uchaf i'r dysgwyr hyn. Mae'r ysgol yn

ymateb yn gadarnhaol i ofynion carfanau gwahanol o ddisgyblion ac yn teilwra ei darpariaeth yn ofalus i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae rhaglen gynhwysfawr hefyd o ymyraethau effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Cydweithia'r ysgol yn hynod agos a llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau allanol, fel y swyddog lles, y nyrs ysgol a'r heddwas cymunedol. Drwy gefnogaeth arbennig y swyddog 'Trac', mae llawer o ddisgyblion mwyaf bregus yr ysgol wedi cyflawni gwaith gwych yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys tacluso'r ardd a thrwsio meinciau yng nghartref henoed lleol Hafan Elan a gweini bwyd i gangen leol o Ferched y Wawr mewn bwyty cyfagos. Mae'r holl brofiadau gwerthfawr hyn wedi cyfrannu at ymglymiad cadarnhaol y dysgwyr mwyaf bregus tuag at eu dysgu.

Mae gan yr ysgol berthynas hynod gynhyrchiol ac adeiladol gyda'i rhieni. Trefnir lluo o ddigwyddiadau cyfoethog i gynnal a chefnogi rhieni. Mae rhain yn cynnwys, cyfarfodydd rhannu gwybodaeth ar ddechrau pob cyfnod allweddol a chlinigau 'galw i mewn' at y pennaeth, os oes consyrn. Cynllun blaengar yw gweithdai adolygu llwyddiannus i rieni Blwyddyn 11 sy'n cael eu harwain gan y chweched dosbarth. Sicrhau bod rhieni a disgyblion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am wahanol agweddau o fywyd yr ysgol trwy wefan yr ysgol, Y Prosbectws Ysgol, 'Byd Brynrefail', a phapur bro Eco'r Wyddfa.

Mae'r rhieni'n derbyn adroddiadau manwl a phersonol sydd yn rhoi darlun clir o ymroddiad disgyblion gan adnabod eu cryfderau a'u gwendidau yn llwyddiannus

Mae'r ysgol yn sicrhau cyngor a chefnogaeth arbennig wrth i ddisgyblion symud o un cyfnod allweddol i'r llall, gyda gwybodaeth glir a chynhwysfawr i ddysgwyr a rhieni. Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn chwarae rhan flaengar wrth greu llyfryn pontio cynradd-uwchradd a'r mwyafrif o ddysgwyr Blwyddyn 10 a 12 yn cynnal ffair opsiynau werthfawr i ddisgyblion Blwyddyn 9 ac 11 wrth iddynt wneud dewisiadau am eu dyfodol. Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda chyflogwyr a sefydliadau addysg bellach lleol i baratoi disgyblion am y camau nesaf yn eu bywydau.

Mae'r ysgol yn rhan werthfawr o'i chymuned ac mae bron bob disgybl yn falch o'u hardal a'u hiaith. Eisteddfod yr ysgol yw pinacl y flwyddyn addysgol gyda phedwar diwrnod o ddigwyddiadau gwerthfawr lle gwahoddir y cyhoedd i ymuno yn y dathliadau. Cynigir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol cyfoethog sy'n datblygu hunanhyder, creadigrwydd a medrau cydweithio'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y band ysgol llwyddiannus a chlybiau celf, codio a gwaith cartref. Mae'r ystod eang o weithgareddau chwaraeon yn gryfder yn yr ysgol. Ceir cyfleodd arbennig i gystadlu a llwyddo ar lefel leol a chenedlaethol mewn timau sy'n cynnwys pêl-rwyd, rygbi, nofio ac athletau. Mae sesiynau yoga buddiol yn cyfrannu at hybu iechyd personol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau da iawn i gynorthwyo disgyblion er mwyn iddynt wneud penderfyniadau iach. Mae eu gwaith buddiol ar wrth-fwllo a seibrfwlio yn cynorthwyo disgyblion i gadw'n ddiogel yn yr ysgol ac ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn gadarn. Mae gwaith y grŵp 'Bwyta'n Iach Brynrefail' wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar wella safon pecynnau bwyd disgyblion. Mae heddwas yr ysgol yn arwain sesiynau adeiladol er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth.

Cryfder nodedig yw'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n ymateb yn wych i anghenion y dysgwyr. Nodwedd eithriadol yw'r ffordd mae'r ysgol wedi teilwra'r ddarpariaeth yn grefftus er mewn ymateb i farn disgyblion ar sail canfyddiadau holiadur iechyd ysgolion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi darparu sesiynau llwyddiannus i ddisgyblion ar sut i ddelio â materion iechyd meddwl.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr gynorthwyo eu cyfoedion a disgyblion iau ac mae hyn yn rhan o ethos arbennig yr ysgol. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion arwain amrywiaeth o weithgareddau elusennol er mwyn codi arian ar gyfer achosion lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Macmillan a hosbis Tŷ Gobaith. Rhan greiddiol o ethos yr ysgol yw gwireddu egwyddorion 'ysgol sy'n annog'. Un o'r datblygiadau mwyaf allweddol yw sefydlu'r 'clwb caredigrwydd' sy'n hyrwyddo awyrgylch sy'n annog disgyblion i rannu eu pryderon mewn awyrgylch cefnogol. Mae'r holl weithgareddau hyn yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, a chymdeithasol y disgyblion yn hynod effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnal ystod o fforymau a phwyllgorau er mwyn datblygu disgyblion sydd yn arddel gwerthoedd dyngarol a moesegol cadarn. Caiff disgyblion gyfleoedd helaeth i ymgymryd â rolau arwain amrywiol gyda chyfleoedd arbennig i leisio barn a chyfrannu at weledigaeth a pholisïau addysgu ac ymddygiad yr ysgol. Mae gwaith y grŵp eco ar leihau'r defnydd o blastig wedi bod yn flaengar er mwyn meithrin dealltwriaeth o gynaliadwyedd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn Ysgol Brynrefail yn nodwedd arbennig sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at sicrhau safonau uchel a lefelau cryf iawn o les disgyblion. Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n arwain yr ysgol mewn modd ysbrydoledig. Caiff ei chefnogi'n arbennig gan ei huwch dîm rheoli. Mae ganddynt weledigaeth glir i anelu at ragoriaeth, 'gyda'n gilydd am y copa'. Seilir y weledigaeth uchelgeisiol hon ar gynnig profiadau addysgol o'r safon uchaf tra'n cynnal lefelau uchel iawn o les disgyblion ac aelodau staff. Mae'r uwch dîm yn fedrus, strategol eu meddylfryd ac yn cydweithio'n hynod effeithiol gyda'r arweinwyr canol. Mae eu harddull o arweinyddiaeth gefnogol ac anogol wedi sicrhau eu bod yn cael eu parchu'n fawr iawn gan ddisgyblion, staff a'r gymuned. Maent yn gosod disgwyliadau uchel iawn i bawb. Gyda'i gilydd, maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn glir ac yn hynod lwyddiannus i holl randdeiliaid yr ysgol. Maent wedi creu ethos gofalgarg a chynhaliol lle mae bron pob aelod o staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

Mae rolau uwch arweinwyr a rheolwyr canol wedi cael eu hailstrwythuro'n fwiadus i gyd-fynd yn agos ag anghenion yr ysgol, medrau deiliaid y swyddi, a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae uwch arweinwyr wedi rhoi systemau grymus ar waith i helpu arweinwyr canol i yrru gwelliannau yn eu blaenau yn eu meysydd. Mae cydweithredu agos ac effeithiol iawn yn bodoli rhwng uwch arweinwyr a rheolwyr canol. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth gref ar bob lefel wedi llwyddo i feithrin lefelau uchel iawn o ymroddiad ymhlith yr holl staff.

Mae llawer o arweinwyr adrannau yn deall eu rolau'n dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb ac maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gwelliant. Mae'r arweinwyr bugeiliol yn effeithiol iawn yn eu rolau. Maent yn cydweithio'n effieithiol iawn gyda'r dirprwy, y tîm o diwtoriaid, ac ystod eang o bartneriaethau er mwyn cynllunio'r gofal, cymorth ac arweinaid gorau posibl i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol gynlluniau a pholisïau pwrpasol ar waith ac mae trefn a strwythur rheolaeth llinell yn glir i bawb. Ceir strwythurau clir o gyfarfodydd llinell, adrannol a staff sydd yn sicrhau bod ffocws cyson ar gynnydd disgyblion. Mae'r trefniadau'n sicrhau bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn am eu rolau. Mae cyfarfodydd rheoli llinell yn canolbwyntio'n fwriadus ar gynnydd disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn brofiadol iawn a gwneir defnydd effeithiol o'u harbenigeddau i gefnogi ac i herio'r ysgol. Drwy'r is-bwyllgorau gweithgar a thrwy eu cyfarfodydd cyswllt gwerthfawr gydag adrannau, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn chwarae rhan flaenllaw yn pennu cyfeiriad strategol yr ysgol ac yn parhau i herio'r ysgol er mwyn gwella'r ychydig o feysydd lle ceir tanberfformio. Maent yn cynnal adolygiad blynyddol o'u gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n fuddiol at waith yr ysgol.

Dros amser, mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant trwyadl yn Ysgol Brynrefail wedi sicrhau gwelliannau nodedig i ddarpariaeth lles yr ysgol a gwellianau cynaledig i ansawdd yr addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd. Mae'r uwch dîm rheoli'n darparu ystod eang o weithgareddau pwrpasol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl staff yn cyfrannu'n helaeth at brosesau hunanwerthuso a llunio blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae calendr addas a thrylwyr o weithgareddau hunanwerthuso ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff a'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Mae'r gweithgareddau cynhwysfawr yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion, dadansoddiad trylwyr a hynod finiog o ddata perfformiad, teithiau dysgu ac arsylwi gwersi. Cryfder nodedig o weithgareddau hunanwerthuso yw cyfraniadau'r disgyblion a rhieni i'r prosesau. Mae llysgenhadon pynciol yn rhan allweddol o gynorthwyo adrannau i wneud gwelliannau i agweddau cwricwlaidd. Yn ogystal, o ganlyniad i ymgynghoriad â rhieni, mae'r ysgol wedi cysoni'r defnydd o waith cartref pwrpasol ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau cadarn i arsylwi gwersi gan yr uwch dîm rheoli ac arweinwyr canol. Mae rhain yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ac arweinwyr gynnal deialog broffesiynol ac mae'r arsylwi wedi esblygu i fodol o rannu arferion sydd werth eu hefelychu ar draws yr ysgol. Mae staff yn ymateb yn bositif i'r sgysiau proffesiynol a'r cyngor ar sut i wella. Serch hyn, mewn ychydig o achosion, wrth arsylwi gwersi, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar weithredoedd yr athro heb roi digon o ystyriaeth i effaith yr addysgu ar safonau.

O ganlyniadau i'r prosesau hunanwerthuso, mae gan arweinwyr ar bob lefel adnabyddiaeth drwyadl o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Defnyddir yr holl wybodaeth o'r prosesau hunanwerthuso yn fedrus i gynllunio gwelliant ar lefel ysgol ac adrannol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yr holl staff, gan gynnwys cymorthyddion dysgu a staff ategol, yn drylwyr a dylanwadol. Mae'r amcanion a gytunwyd â staff addysgu yn heriol a realistig ac yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol o wella ansawdd yr addysgu i godi safonau disgyblion. Mae'r trefniadau'n nodi anghenion datblygiad proffesiynol pob un o'r staff yn effeithiol ac yn cysylltu'n agos â rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol.

Ceir pwyslais clir ar ddatblygu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff mewn dull creadigol a blaengar. Mae cyfleoedd gwerthfawr iawn i athrawon arsylwi ei gilydd, i fyfrio ar eu gwaith ac i rannu arfer dda. Mae prosesau cydlynus gan yr ysgol i adnabod anghenion dysgu proffesiynol staff ac mae rhaglen hynod gynhwysfawr sy'n diwallu anghenion unigol staff a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r bartneriaeth flaengar gyda phrifysgol lle mae athrawon yn derbyn hyfforddiant sy'n eu cynorthwyo i hyrwyddo iechyd meddwl disgyblion mewn modd sy'n deillio o'r ymchwil diweddaraf. Mae cynlluniau datblygu unigol staff yn cynnwys targedau penodol a phwrpasol ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen dysgu proffesiynol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon a staff eraill ddatblygu medrau arweinyddiaeth wrth arwain ar agweddau traws ysgol ac i fentora athrawon eraill. Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau buddiol ag ysgolion eraill a phrifysgolion er mwyn rhannu arferion ac arbenigeddau dysgu ac addysgu, ac i hyfforddi athrawon.

Mae'r corff llywodraethol, y rheolwr busnes a chyllid, a'r pennaeth, yn monitro gwariant yn fanwl ac mae'r gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Caiff yr holl wariant ei werthuso'n drylwyr. O ganlyniad, ers 2016, mae'r ysgol wedi cofnodi gwarged yn y gyllideb. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grantiau i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol. O fewn y cyllid, gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'i staff a'i hadeiladau ac mae wedi llwyddo i greu amgylchedd dysgu hynod gadarnhaol.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2020